ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cynllun Gwaith Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

ICT Year 6

Uned 6E Defnyddio'r rhyngrwyd i chwilio cronfeydd data mawr a dehongli gwybodaeth

Ynglyn â'r uned hon:

Yn yr uned hon mae plant yn dysgu sut i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth mawr, fel y rhai sydd ar gael ar y rhyngrwyd. Byddan nhw yn cipddarllen ac yn amsugno gwybodaeth er mwyn dod yn berchen arni a'i dehongli gyda phobl eraill. Weithiau, byddan nhw'n feirniadol o'r cynnwys ac yn gallu gwirio ar gyfer safbwyntiau gwahanol. Bydd y plant yn cyflwyno'r wybodaeth a ymchwiliwyd ar ffurf sy'n addas ar gyfer anghenion eu cynulleidfa. Mae'n bwysig bod athrawon yn chwilio'r rhyngrwyd yn gyntaf ar gyfer gwefannau addas. Heb wneud hynny, mae'n bosib i blant dreulio oriau yn chwilio heb lwyddiant na chanlyniad.

Ble mae'r uned yn ffitio:

Mae'r uned hon yn adeiladu ar waith blaenorol Unedau 5B 'Dadansoddi data a gofyn cwestiynau: defnyddio chwiliadau cymhleth' a 5C 'Gwerthuso gwybodaeth, gwirio cywirdeb a chwestiynu hygrededd' ac mae'n ategu Uned 6A 'Cyflwyno Amlgyfrwng'. Mae'r uned hon yn cymryd yn ganiataol bod y plant:

- yn gyfarwydd â chronfeydd data
- yn gallu chwilio ar fwy nag un amnewidyn
- yn gallu gwirio am ddata anghywir.

Formatted: Bullets and Numbering

Geirfa:

cynulleidfa | rhyngrwyd | mynegai | dalen gofnod | URL | peiriant chwilio | tuedd | llinyn | hypergyswlltt |

Adnoddau:

mynediad i'r rhyngrwyd | amrediad o wefannau wedi'u cofnodi a baratowyd gan yr athro/athrawes | ystod o ffynonellau gwybodaeth a argraffwyd o CD-ROM neu o'r rhyngrwyd | pecyn prosesu geiriau neu gyhoeddi pen desg | amrediad o papurau newydd

Disgwyliadau: ar ddiwedd yr uned hon,

Bydd mwyafrif y plant yn gallu: chwilio'r rhyngrwyd gan fod yn ofalus wrth lunio cwestiynau; deall pan fydd y wybodaeth yn ddilys ac yn ei chyflwyno ar gyfer cynulleidfa ddethol

Bydd rhai plant dim ond yn gallu: chwilio'r rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth briodol gan gopïo testun a lluniau i bobl eraill eu gweld

Hefyd bydd rhai plant yn gallu: chwilio'r rhyngrwyd gan ddefnyddio ystod o weithredwyr i ddod o hyd i ystod o wybodaeth; yn dilysu adnoddau a gwirio am duedd wrth gyflwyno i gynulleidfa benodol

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Gosod yr Olygfa • **syniad allweddol:** ei bod yn bwysig dehongli gwybodaeth er mwyn ei deall	♦ Darparwch amrywiaeth o erthyglau byr. Rhannwch y deunyddiau a'r plant yn grwpiau a gofynnwch i'r plant ddewis y pwyntiau allweddol o'r erthyglau. Dylent adrodd y wybodaeth i weddill y dosbarth gan ddefnyddio dwy neges allweddol o'r deunydd.	• sylweddoli bod yn rhaid darllen gwybodaeth cyn bod modd ei deall a'i dehongli ar gyfer pobl eraill • gweithio gyda phobl eraill i ddehongli gwybodaeth	• Mae'r deunydd hwn yn gallu bod o lyfrau, CD-ROM neu'r rhyngrwyd. Mae plant yn gyfarwydd â gwneud y gweithgaredd hwn gyda llyfrau. Fodd bynnag maen nhw'n argraffu'n aml o CD-ROM neu o'r rhyngrwyd heb ddarllen y deunydd.
Tasg fer wedi'i ffocysu • **syniad allweddol:** bod y wybodaeth a argreffir yn cael ei deall • **techneg:** cyrchu safle ar y we drwy ddefnyddio rhestr ffefrynnau (favourites) • **techneg:** argraffu tudalen oddi ar y rhyngrwyd	♦ Dewiswch bwnc sy'n cael ei astudio ar hyn o bryd. Gofynnwch i'r plant restru beth maen nhw'n ei wybod. Siaradwch am ble arall y gellid dod o hyd i wybodaeth. Defnyddiwch gylchgronau gyda phynciau, gan ddewis rhai sy'n rhestru'r cyfeiriad ar y we. ♦ Dangoswch sut mae dewis safle o restr ffefrynnau (favourites) a sut mae argraffu tudalen oddi ar y we. Wedyn gofynnwch i'r plant ddewis cerdyn o focs o bynciau. Gofynnwch i bob grŵp ddefnyddio eu cerdyn a URL priodol o'r rhestr ffefrynnau (favourites) i ddod o hyd i'w gwybodaeth nhw. Gofynnwch i'r plant ddod o hyd i wybodaeth ac argraffu tudalen ar gyfer pob grŵp gwaith. Gofynnwch i'r plant amlygu'r testun i ddangos y wybodaeth allweddol.	• defnyddio rhestr ffefrynnau (favourites) i ddod o hyd i wybodaeth • ychwanegu at eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r pwnc sy'n cael ei ymchwilio • argraffu tudalennau o'r rhyngrwyd	• Mae llawer o gylchgronau a chwmnïau'n dyfynnu cyfeiriad ar y we yn eu herthyglau neu eu hysbysebion. Mae'n hanfodol bod y cardiau/pynciau'n cyd-fynd â'r URL a ddewiswyd gan yr athro/athrawes. Dylai'r pynciau a ddewiswyd adlewyrchu amrywiaeth o safleoedd sydd ar eich rhestr ffefrynnau yn barod. Drwy ddefnyddio cardiau, gallwch sicrhau bod plant yn dewis safleoedd gwahanol ac yn gallu rhannu eu gwybodaeth. Dylai'r safleoedd gynnwys testun, lluniau a hypergysylltiadau i wefannau eraill, *sydd wedi'u gwirio gan yr athro/athrawes yn barod*

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **techneg:** defnyddio peiriant chwilio sydd wedi'i safoni i ddod o hyd i wybodaeth (gyda goruchwyliaeth) • **techneg:** chwilio'r rhyngrwyd gan ddefnyddio 'and' • **syniad allweddol:** deall pwysigrwydd defnyddio geiriau allweddol i ddod o hyd i wybodaeth	♦ Dangoswch chwiliad ar y cyfrifiadur. Defnyddiwch un peiriant chwilio sydd wedi'i safoni i ddangos chwilio am 'Cornwall' ac ysgrifennwch ar y bwrdd y nifer o safleoedd a ganfuwyd. Gofynnwch i'r plant gymryd cerdyn pwnc o'r bocs a defnyddio un gair i chwilio. Gallant wneud hynny drwy gydol yr wythnos, gyda phob un yn chwilio ac yn cofnodi eu canlyniadau. Os oes gan rai plant yr un pwnc ac os ydyn nhw'n chwilio ar gyfnodau gwahanol yn ystod yr wythnos, gallwch gymharu a yw'r canlyniadau yr un peth a thrafod pam. Gofynnwch a gafodd unrhyw un o'r plant lai na 50 canlyniad. Gofynnwch iddynt a oedd y chwiliad yn ddefnyddiol a gofynnwch am syniadau ynghylch beth i'w wneud. ♦ Dangoswch y chwiliad gwreiddiol gan ddefnyddio 'Cornwall' ar ei ben ei hun ac 'Eclipse' ar ei ben ei hun. Wedyn rhowch gynnig ar 'Eclipse' a 'Cornwall'. Trafodwch y canlyniadau gwahanol. Gofynnwch i'r plant ddewis y geiriau allweddol y bydden nhw'n eu defnyddio i ddod o hyd i'r wybodaeth y mae arnynt ei heisiau a rhoi cynnig ar eu chwiliadau eu hunain. Gallent ddefnyddio'r pwnc gwreiddiol. Dylent drafod pa gwestiynau maen nhw eisiau eu gofyn. Argraffwch a dethol gan ddefnyddio pen amlygu. Trafodwch ganfyddiadau'r plant.	• ddefnyddio peiriant chwilio sydd wedi'i safoni i ddod o hyd i wybodaeth • defnyddio chwiliadau 'and' a deall sut i'w defnyddio er mwyn datblygu i ddefnyddio peiriant chwilio'n effeithiol • cipddarllen a dewis gwybodaeth gan wirio am duedd	Gallai'r cardiau yn y bocs gynrychioli enwau, lleoedd lleol o ddiddordeb, *ee* 'pynciau hanesyddol, gwefannau chwaraeon, artistiaid, awduron, enwau lleoedd neu bynciau eraill sy'n perthyn i feysydd cwricwlaidd gwahanol.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasgau byr wedi'u cwblhau (Parhad.) • **syniad allweddol:** bod modd cipddarllen, dethol, dewis a gwirio gwybodaeth am duedd • **techneg:** defnyddio hypergysylltiadau i olrhain syniad	♦ Dewiswch bwnc o ddiddordeb cyfredol yn y cyfryngau. Trafodwch pa wybodaeth allai fod yn ddefnyddiol. Defnyddiwch destun a lluniau wedi'u hargraffu a baratowyd a gofynnwch i grwpiau o blant eu cipddarllen, eu dewis a chydosod stori. Gofynnwch iddynt edrych ar y wybodaeth am safbwyntiau gwahanol. ♦ Dewiswch wefan arall gan ddarparwr addysgol, neu safle arall â hypergysylltiadau clir. Dangoswch sut i ddod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio cysylltiadau yn hytrach na chwiliadau. ♦ Dangoswch sut i ddalen gofnodi hoff wefannau er mwyn arbed yr URL. ♦ Gofynnwch i'r plant roi cynnig ar wefannau a ddewiswyd yn barod gan ddefnyddio hypergysylltiadau i welywio o gwmpas y system.	• ddefnyddio hypergysylltiadau i ddod o hyd i wybodaeth ar y rhyngrwyd • defnyddio dalennau cofnod (bookmarks)	• Bydd yn bwysig darparu amrediad o ddeunydd sy'n dangos safbwyntiau gwahanol. Byddai gwybodaeth o bapurau newydd amrywiol, CD-ROM neu'r Rhyngrwyd yn ddefnyddiol. Mae dewis a gwirio safleoedd ar y we cyn y wers yn hollbwysig. • Mae'n bosib y byddai dangos sut i gadw safleoedd mewn ffolderi ar gyfer pynciau gwahanol yn y maes ffefrynnau (favourites) yn ddefnyddiol. Gall gadw ffefrynnau (favourites) ddibynnu ar gôd ymddygiad yr ysgol.

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu…	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion…*	**Pwyntiau i'w Nodi**
• **syniad allweddol:** gweithio gydag eraill i gymharu'r ffynonellau a'r dulliau mwyaf addas o chwilio • **techneg:** teipio URL i ddod o hyd i dudalen ar y we • **techneg:** c adw a defnyddio lluniau a thestun a'u mewnforio i ddogfen ar gyfer cyflwyniad • **syniad allweddol:** deall hawlfraint a chydnabod ffynonellau	♦ Dewiswch ddau URL rydych yn gyfarwydd â nhw'n barod. Dangoswch sut i roi'r enw i mewn i ddod o hyd i'r safle. ♦ Dangoswch sut i ddefnyddio'r dechneg clicio ar y dde i gopïo lluniau. Trafodwch pam mae rhai lluniau'n copïo'r lleoliad yn unig ac nid y llun. Defnyddiwch Minimise ac agorwch raglen destun. Defnyddiwch y gorchymyn Paste. ♦ Dangoswch su ti gopïo testun yn yr un ffordd. ♦ Trafodwch hawlfraint a pham y dylid cydnabod ffynhonnell bob amser ♦ Gofynnwch i'r plant gynhyrchu darn o waith o'r ffeiliau testun a llun a fewnforiwyd. Trafodwch pwy fydd y gynulleidfa i'r gwaith.	• bwydwch URL i mewn i ddod o hyd i safle ar y we • copïo a phastio o'r rhyngrwyd i mewn i raglen prosesu geiriau neu gyhoeddi pen desg er mwyn cyhoeddi • deall materion hawlfraint	• Mae'n rhaid i blant ddeall bod URL yn Lleolydd Adnoddau Unffurf (URL - Unique Resource Locator) a bod y cyfrifiadur yn defnyddio codau rhif y mae'n rhaid iddynt fod yn gywir. • Sicrhewch fod gan y cyfrifiadur chwaraewyr cyfryngau addas. • Gwiriwch a oes gan yr URL luniau i'w lawrlwytho a dewiswch un heb luniau • Bydd disgyblion mwy galluog yn gallu mewnforio ffeiliau sain i becyn awduro amlgyfrwng hefyd.

Amcanion Dysgu Dylai disgyblion ddysgu...	**Gweithgareddau Posib**	**Canlyniadau Dysgu** *Gall disgyblion...*	**Pwyntiau i'w Nodi**
Tasg Asesu • defnyddio chwiliadau cymhleth i leoli gwybodaeth • gweithio gydag eraill i ddehongli gwybodaeth • edrych ar wybodaeth o safbwyntiau gwahanol a dilysu adnoddau • defnyddio prosesu geiriau neu gyhoeddi pen desg i drefnu a chyflwyno gwybodaeth sy'n addas ar gyfer cynulleidfa • defnyddio e-bost fel modd i dderbyn adborth ar syniadau	♦ Fel rhan o bwnc llythrennedd ar ddatblygu arddull newyddiadurol, defnyddiwch y rhyngrwyd i ymchwilio i ddigwyddiadau o ddiddordeb i'r cyhoedd. Trafodwch sut mae'r plant yn gallu mireinio'r chwiliad i ddod o hyd i wybodaeth addas darganfod pa safleoedd allai fod yn addas. Gofynnwch i'r plant weithio mewn grwpiau i ddehongli'r wybodaeth, gan wirio am gydbwysedd ac gohebu moesegol. Trafodwch ddylanwad gohebu anghywir ar unigolion. ♦ Gofynnwch i bob grŵp gynhyrchu tudalen o bapur newydd gan ystyried grwpiau cynulleidfa gwahanol. Dylid cadw cofnod o URLs a'u cydnabod ar y cyhoeddiad i gydymffurfio â hawlfraint. ♦ Defnyddiwch sesiwn lawn i drafod y safleoedd a ddefnyddiwyd, *ee pam dewiswyd nhw? Faint o amser dreuliwyd i ddod o hyd i'r wybodaeth berthnasol?* ♦ Cyflwynwch i'r dosbarth gan drafod unrhyw faterion dilysrwydd yn y wybodaeth a ymchwiliwyd a gogwydd yn y safbwynt a gyflwynwyd. A deimlwyd bod y wybodaeth y daethpwyd o hyd iddi yn berthnasol ac yn rhesymol? ♦ Gofynnwch i'r plant e-bostio eu ffrindiau, gan ofyn iddynt ateb y cwestiwn *At ba grŵp oedran roedd y cyflwyniad yn cael ei dargedu?*	• ddefnyddio chwiliadau i leoli, deall a dehongli gwybodaeth • defnyddio amrywiaeth o ffynonellau i wirio dilysrwydd a nodi safbwyntiau gwahanol ac effaith data anghywir • cyflwyno eu syniadau am wybodaeth mewn dull sy'n briodol ar gyfer y gynulleidfa • defnyddio e-bost	Mae amrywiaethd eang o bapurau newydd – cenedlaethol a rhyngwladol – ar y rhyngrwyd. Gellid defnyddio copïau caled i gefnogi cymariaethau. Dylai'r athro/athrawes ddiffinio'r gynulleidfa a thrafod goblygiadau hynny. Bydd angen i'r athro/athrawes ofalu bod disgyblion yn defnyddio gwefannau a chysylltiadau sydd wedi'u gwirio am eu haddasrwydd. Mae'n rhaid glynu wrth Bolisi Defnydd Derbyniol yr ysgol ac fel arfer dylai disgyblion ddefnyddio dim ond peiriant chwilio sydd wedi'i safoni. Mae goruchwyliaeth fanwl yn hanfodol pan fydd disgyblion yn defnyddio technegau chwilio ar y Rhyngrwyd.

These units have been adapted from material available on the QCA Schemes of Work website